

HNC Colur Arbenigol



Yn gwyno

Y cwrs lefel uwch hwn yw blwyddyn gyntaf rhaglen dwy flynedd ac mae'n ymdrin â'r sgiliau technegol uwch a'r wybodaeth sydd eu hangen i weithio yn y diwydiant colur ar gyfer ffilm, teledu a theatr.

Dyma'r cwrs i chi os...

... Oes gennych chi ddiddordeb proffesiynol mewn colur theatr neu ffilm

... Ydych chi'n greadigol

... Ydych chi'n weithgar ac yn ymroddedig

Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae artistiaid colur effeithiau arbennig yn gweithio gyda modelau byw neu berfformwyr i'w trawsnewid yn gymeriadau neu greaduriaid (fel arfer ar gyfer act neu sioe a ddisgrifir mewn

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

sgriptiau ffilm a theledu). Mae eu gwaith yn cynnwys rhoi colur a/neu brostheteg i gyflawni'r effaith theatrig ddelfrydol.

Mae'r cwrs Effeithiau Arbennig Theatrig, Gwallt a Cholur y Cyfryngau yn ddelfrydol i chi os oes gennych ddiddordeb mewn colur theatr neu ffilm, rydych yn bwriadu dilyn gyrfa yn y diwydiant ac wedi cyflawni Colur Theatrig Lefel 2, neu yn meddu ar brofiad cyfwerth yn y diwydiant.

Byddwch yn datblygu'r sgiliau hanfodol i gychwyn gyrfa lwyddiannus mewn colur theatrig a'r cyfryngau, ac yn dysgu am weithio yn y diwydiant. Yn ystod eich amser yn y coleg byddwch yn cael cyfleoedd i wneud profiad gwaith a chymryd rhan mewn cystadlaethau rhanbarthol a chenedlaethol.

Yn ystod eich amser yn y coleg byddwch yn cael cyfleoedd i wneud profiad gwaith a chymryd rhan mewn cystadlaethau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'n arbenigo mewn datblygu sgiliau a gwybodaeth bellach sydd eu hangen i weithio ym myd ffilm, teledu a theatr.

Byddwch yn astudio unedau sy'n cynnwys:

Blwyddyn 1

Y Diwydiant Celfyddydau Perfformio
Datblygiad Proffesiynol
Ffasiwn a Cholur Golygyddol Ffasiwn
Creu Gwisgoedd
Gwallt a Cholur Cyfnod
Trin Gwallt a Rhoi Colur - Postiche Wyneb
Effeithiau Arbennig
Crefft Llwyfan

Blwyddyn 2

Effeithiau Arbennig
Prosiect Ymchwil Creadigol
Gweithio yn y Diwydiant Celfyddydau Perfformio
Creu Mygydau a Phypedau
Yr Artist Colur Llawrydd - Creu Wigiau
Rôl Rheoli
Dylunio Gwisgoedd

Asesir sgiliau ymarferol trwy gyfres o aseiniadau ymarferol wedi'u hamseru wedi'u gosod o friff

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

sy'n gysylltiedig â'r diwydiant, a gefnogir gyda chyfnodolion helaeth o log ymchwil a datblygu. Asesir unedau theori trwy astudiaethau achos, cyfnodolion ymchwil a chyflwyniadau.

Cynhelir dosbarthiadau meistr a hwylusir gan arbenigwyr y diwydiant trwy gydol y rhaglen 2 flynedd.

Ar ôl ei gwblhau, byddwch chi'n cyflawni HND Pearson yn y Celfyddydau Perfformio (Colur Arbenigol) - Lefelau 4 a 5, fodd bynnag byddwch chi'n ennill HNC yn y Celfyddydau Perfformio ar ôl y flwyddyn gyntaf o astudio.

Beth a ddisgwylir ohonof i?

I ddechrau ar y cwrs, mae gofyn i chi gael 4 gradd TGAU A*- C sydd yn cynnwys Saesneg a Chelf, cymhwyster Lefel 3 mewn Colur Theatr a'r Cyfryngau (Proffil Teilyngdod Galwedigaethol Gofynnol) neu brofiad cyfwerth yn y diwydiant.

Bydd disgwyl i'r dysgwyr fod yn greadigol, ymroddgar ac yn ysbrydoledig

Beth sy'n digwydd nesaf?

Ar ol cwblhau'r HNC yn llwyddiannus, byddwch yn symud ymlaen i'r HND yn Coleg Gwent. Ar ol cwblhau eich HND yn llwyddiannus gallech symud ymlaen ymhellach i ychwanegu at radd BA (Anrh) mewn Colur Cyfryngau mewn prifysgol briodol.

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd disgwyl i chi i brynu gwisg arbennig a phecyn wig a fydd yn costio tua £250

Efallai y bydd costau eraill sy'n gysylltiedig â theithio a llety ar gyfer hyfforddiant Meistr.

Cod gwisg:

Gwisg arbennig

Mae'n rhaid clymu'r gwallt yn daclus i ffwrdd o'r wyneb